CYTUNDEB FFRAMWAITH – Atodlen 3

Y Drefn Anghydfodau

Diben, Diffiniadau a Gwerthoedd

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r trefniadau i ymdrin ag anghydfodau yng nghynllun Coetiroedd Gwell i Gymru (CGiG). Mae'r Drefn Anghydfodau yn cynnwys pob sefyllfa lle mae dau neu fwy o bartïon yn anghytuno neu'n dadlau am unrhyw elfen o gynllun CGiG. Er mwyn i'r Drefn Anghydfodau fod yn effeithiol, mae'n bwysig ei bod yn:

- Deg
- Eglur
- Hwylus

Y Drefn Anghydfodau

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gyfrifol am redeg y Drefn Anghydfodau a sicrhau ei fod yn bodloni'r gwerthoedd a restrir uchod. Mae chwe cham:

Dilysu: Ym mhob achos pan gaiff anghydfod ei gyfeirio at Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, bydd y Rheolwr Gweithrediadau yn penderfynu a yw o fewn cwmpas Trefn Anghydfodau CGiG ai peidio. Bydd hyn yn cynnwys pennu'r ffeithiau trwy siarad â'r partïon. Defnyddir Trefn Anghydfodau CGiG i ddatrys anghydfodau'n unig sy'n ymwneud â:

- Dehongli dogfennau swyddogol CGiG a gynhyrchwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.
- Taliadau, materion yn ymwneud â chontractau neu gyflwyno'r gwasanaethau rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru a pharti arall.

Nid oes a wnelo Comisiwn Coedwigaeth Cymru â'r Drefn ac ni fydd yn defnyddio'r Drefn i ddatrys anghydfodau rhwng:

- Unrhyw bartïon eraill (nid Comisiwn Coedwigaeth Cymru) sy'n ymwneud â thaliadau, materion yn ymwneud â chontractau neu gyflwyno'r gwasanaethau.

Mae gan anghydfodau eraill eu trefnau eu hunain sydd eisoes yn bodoli i ymdrin ag anghydfodau eraill ac felly ni fyddant yn ddilys i'w hystyried o dan Drefn Anghydfodau CGiG. Sefyllfaoedd sydd eisoes ganddynt drefn ddiffiniedig, yw:

- Ceisiadau am Drwydded Cwympo Coed
- Achosion Gorfodi Trwydded Cwympo Coed
- Achosion Anghyfreithlon o Gwympo Coed
- Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol
- Achosion Grant Adennill

Penderfynu: Pan benderfynir bod yr anghydfod yn ddilys i'w ystyried o dan y drefn, bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Ym mhob achos ac eithrio achos lle mae'r anghydfod yn ymwneud ag ymddygiad y Rheolwr Gweithrediadau'n uniongyrchol, y Rheolwr Gweithrediadau fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Lle a wnelo'r anghydfod ag ymddygiad y Rheolwr Gweithrediadau, Pennaeth Grantiau a Thrwyddedau yng Nghymru fydd yn ymdrin â'r achos. Wrth benderfynu'r camau bydd y Rheolwr Gweithrediadau yn nodi ac yn adolygu anghydfodau blaenorol yn ymwneud â'r parti neu'r partïon, yn cyfeirio at unrhyw gontractau sydd ar waith, ac yn ystyried achosion blaenorol tebyg.

Camau i'w Cymryd: Bydd y Rheolwr Gweithrediadau yn cymryd y camau angenrheidiol i ddatrys yr anghydfod. Gallai hyn olygu cyflafareddu neu ddyfarnu o blaid un parti. Yn ogystal, bydd y Rheolwr Gweithrediadau'n sicrhau bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cymryd camau er mwyn lleihau'r risg o anghydfod tebyg yn digwydd yn y dyfodol. Gallai hyn olygu diweddaru arweiniad, cyhoeddi arweiniad neu ddyfarniadau a/neu nodi a chyflwyno hyfforddiant newydd.

Cofnodi: Cofnodir pob anghydfod yn erbyn yr achos (Cynllun Rheoli, Trwydded Cwympo Coed ac ati).

Adborth: Ym mhob achos, bydd y partïon yn cael adborth oddi wrth y Rheolwr Gweithrediadau am y dyfarniad a pha gamau a gymerwyd.

Monitro: Bydd cofnodi anghydfodau yn system ar-lein Grantiau a Thrwyddedau yn golygu y cânt eu monitro. Gwneir gwaith monitro yn flynyddol a chanlyniad hyn fydd ceisio nodi tueddiadau a chyfeirio CGiG at wella'i phrosesau. Bydd yn gymorth i asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd hefyd.